Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***10.00 AM - DYDD MAWRTH, 7 GORFFENNAF 2020***

***O BELL TRWY TEAMS***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

## Rhan 1

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiad/au Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

3. Cais Rhif. P2020/0415 - Ysgol Ystalyfera *(Tudalennau 5 - 22)*
Codi adeilad ystafell ddosbarth deulawr a gwaith cysylltiedig ar dir yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, Glan yr Afon, Ystalyfera.

4. Cais Rhif. P2020/0406 - 50 Commercial Road, Tai-bach *(Tudalennau 23 - 40)*
Cynnig i newid yn rhannol ddefnydd o siop (Dosbarth Defnydd A1) a fflat llawr cyntaf (Dosbarth Defnydd C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) i bum person (Dosbarth Defnydd A1), ynghyd â newidiadau i ffenestriad y prif adeilad a'r tŷ allan yn 50 Commercial Road, Tai-bach SA13 1LG.

5. Eitemau brys
Any urgent items at the discretion of the Chairman pursuant to Section 100B(4)(b) of the Local Government Act 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2020**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **S.Pursey**

**Aelodau:** Councillors C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi’n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu’n ei wrthwynebu.

- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**<u>Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor</u>**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn <u>2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf</u> (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.